COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD
Etholiad ar gyfer
ARDAL HEDDLU GWENT

1. Cynhelir etholiad i ethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer ardal Heddlu Gwent.
2. Rhaid i bapurau enwebu gael eu danfon at Ddirprwy Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu yn Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, rhwng 10-00am a 4-00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun hyd ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16:00** ar **ddydd Iau, 7fed EBRILL, 2016**. Derbynnir ernesau ymgeiswyr (£5,000) ar ffurf arian parod, drafft banc wedi'i dynnu yn erbyn banc y stryd fawr neu drwy drefniant, trosglwyddiad electronig.
3. Gellir cael papurau enwebu yn y lle ac ar yr adegau a grybwyllir uchod. Bydd Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu, ar gais unrhyw etholwr, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.
4. Os ymleddir yr etholiad, bydd y pleidleisio ar **ddydd Iau, 5ed Mai, 2016**.
5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol erbyn **24:00** ar ddydd **Llun 18 Ebrill 2016**.
6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon ddal sylw bod yn rhaid i bob cais am bleidlais drwy'r post newydd, am bleidlais drwy ddirprwy drwy'r post ac i newid neu ddiddymu pleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes, gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol berthnasol isod, erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 19eg EBRILL, 2016**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.
7. Rhaid i geisiadau newydd i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol berthnasol isod erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 26ain EBRILL, 2016.**
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anallugrwydd corfforol neu am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol yn y cyfeiriad isod erbyn **17:00** ar **5ed Mai 2016**. Rhaid bod yr anallugrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**.

Cyngor	Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol	
Blaenau Gwent	CBS Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy, NP23 6DN	01495 355086
Caerffili	CBS Caerffili, Dyffryn House, 5a Alder Avenue, Parc Busnes Dyffryn, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7TW	01443 864203
Mynwy	Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA	01633 644212
Casnewydd	Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	01633 210742
Torfaen	CBS Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB	01495 766074

Cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd ar 5ed Mai, 2016.

Dyddiedig heddiw 21ain o Fawrth, 2016

Will Godfrey
Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu,
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Noder: - Dylai unrhyw un ag ymholiad gysylltu â Phil Johnson, Dirprwy Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu, i gael mwy o wybodaeth ar 01633 210742. E-bost phillip.johnson@newport.gov.uk Argymhellir gwneud apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu.

Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR